



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2011 Rhif 2830 (Cy.303)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

**Gorchymyn Moch (Cofnodion,
Adnabod a Symud) (Cymru)
2011**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn parhau i weithredu Cyfarwydddeb y Cyngor 2008/71/EEC ar adnabod a chofrestru moch (OJ Rhif L 213, 8.8.2008, t.31). Mae'n dirymu ac yn disodli Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/1742) (Cy.172).

Y prif newid yw ei fod yn ei gwneud yn ofynnol rhaghsbysu cronfa ddata gyfrifiadurol ganolog ynghylch y rhan fwyaf o symudiadau moch.

Mae'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol bod person sy'n cadw moch ar ddaliad yn hysbysu Gweinidogion Cymru (erthygl 4) ac yn ei gwneud yn ofynnol cadw cofnod (erthygl 5 a'r Atodlen). Mae erthygl 24 yn darparu bod hawl gan arolygydd i weld y cofnodion hyn a gwneud yn ofynnol darparu copïau ohonynt.

Mae erthyglau 6 i 11 yn ei gwneud yn ofynnol marcio moch â thagiau clust neu datws ac yn pennu'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y marciau adnabod hyn.

Mae erthyglau 12 i 20 yn ymdrin â'r gweithdrefnau ar gyfer hysbysu ynghylch symudiadau, a'r ddogfennaeth angenrheidiol.

Mae erthygl 21 yn caniatáu i Weinidogion Cymru eithrio rhai symudiadau rhag gofynion Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003 (O.S. 2003/1966) (Cy.211).

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2011 No. 2830 (W.303)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

**The Pigs (Records, Identification
and Movement) (Wales) Order
2011**

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order, which applies in relation to Wales, continues to implement Council Directive 2008/71/EEC on the identification and registration of pigs (OJ No L 213, 8.8.2008, p.31). It revokes and replaces the Pigs (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2008 (S.I. 2008/1742) (W.172).

The principal change is that it requires pre-notification to a central, computerised database of most movements of pigs.

The Order requires that a person keeping pigs on a holding must notify the Welsh Ministers (article 4) and requires a record to be kept (article 5 and the Schedule). Article 24 provides that an inspector is entitled to see these records and require copies.

Articles 6 to 11 require pigs to be marked with ear tags or tattoos and specify what these identification marks must contain.

Articles 12 to 20 deal with the procedures for notification of movements and the necessary documentation.

Article 21 allows the Welsh Ministers to exempt some movements from the requirements of the Disease Control (Wales) Order 2003 (S.I. 2003/1966) (W.211).

Mae erthyglau 22 a 23 yn rheoli tynnu ymaith ac amnewid marciau adnabod.

Gorfodir y Gorchymyn gan yr awdurdod lleol (erthygl 25).

Mae torri'r Gorchymyn yn dramgwydd o dan adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981, ac yn dwyn cosb yn unol ag adran 75 o'r Ddeddf honno.

Paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o effeithiau'r Gorchymyn hwn ar gostau busnes a'r sectorau gwirfoddol a chyhoeddus, ac mae'r asesiad ar gael gan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Articles 22 and 23 govern the removal and replacement of identification marks.

The Order is enforced by the local authority (article 25).

Breach of the Order is an offence under section 73 of the Animal Health Act 1981, punishable in accordance with section 75 of that Act.

A regulatory impact assessment of the effects this Order will have on the costs of business, the voluntary sector and the public sector has been prepared and is available from the Welsh Government, Cathays Park Cardiff, CF10 3NQ.

2011 Rhif 2830 (Cy.303)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

**Gorchymyn Moch (Cofnodion,
Adnabod a Symud) (Cymru)
2011**

Gwnaed 22 Tachwedd 2011
Yn dod i rym 25 Tachwedd 2011

Mae Gweinidogion Cymru, y breiniwyd ynddynt bellach y pwerau a roddir gan adrannau 1 ac 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(1), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau hynny:

RHAN 1

Rhagarweiniad

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011. Daw i rym ar 25 Tachwedd 2011 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "BPEX" ("*BPEX*") yw'r is-adran o'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth sydd â chyfrifoldeb dros y diwydiant moch yn Lloegr.

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw unrhyw berson sydd â gofal a rheolaeth dros foch, boed hynny ar sail dros dro neu barhaol, ond nid yw'n cynnwys person nad yw ond yn cludo moch;

(1) 1981 p.22. Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaethau un o Weinidogion y Goron, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd O.S. 2004/3044. Mae adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 p.32 ac Atodlen 11 i'r Ddeddf honno yn breinio'r swyddogaethau hyn yng Ngweinidogion Cymru.

2011 No. 2830 (W.303)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

**The Pigs (Records, Identification
and Movement) (Wales) Order
2011**

Made 22 November 2011
Coming into force 25 November 2011

The Welsh Ministers, in whom the powers conferred by sections 1 and 8(1) of the Animal Health Act 1981 are now vested(1) make the following Order in exercise of those powers:

PART 1

Introduction

Title, application and commencement

1. The title of this Order is the Pigs (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2011. It comes into force on 25 November 2011 and applies in relation to Wales.

Interpretation

2. In this Order—

"BPEX" ("*BPEX*") means the division of the Agriculture and Horticulture Development Board with responsibility for the pig industry in England.

"CPH number" ("*rhif CPH*") means the county parish holding number assigned to a holding by the Welsh Ministers;

(1) 1981 c.22. The functions of "the Ministers" so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by virtue of S.I. 1999/672. The functions of a Minister of the Crown so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by virtue of S.I. 2004/3044. Section 162 of, and Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 c.32, vest these functions in the Welsh Ministers.

ystyr "daliad" ("*holding*") yw unrhyw sefydliad, adeiladwaith neu, yn achos fferm awyr agored, unrhyw fan lle y mae moch yn cael eu dal, eu cadw neu eu trafod;

ystyr "marc adnabod" ("*identification mark*") yw tag clust neu datw sy'n cydymffurfio ag erthygl 6;

ystyr "marc enfaint" ("*herdmark*") yw cod alffaniwmerig a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan erthygl 4(2);

ystyr "MLCSL" ("*MLCSL*") yw Meat and Livestock Commercial Services Limited;

ystyr "rhif CPH" ("*CPH number*") yw'r rhif sir, plwyf a daliad a ddyrennir i ddaliad gan Weinidogion Cymru.

"herdmark" ("*marc enfaint*") means an alphanumeric code issued by the Welsh Ministers under article 4(2);

"holding" ("*daliad*") means any establishment, construction or, in the case of an open air farm, any place in which pigs are held, kept or handled;

"identification mark" ("*marc adnabod*") means an eartag or tattoo which complies with article 6;

"keeper" ("*ceidwad*") means any person having care and control of pigs, whether on a temporary or permanent basis, but does not include a person who only transports pigs;

"MLCSL" ("*MLCSL*") means Meat and Livestock Commercial Services Limited.

Hysbysiadau etc

3.—(1) Rhaid i unrhyw hysbysiad, trwydded neu gymeradwyaeth a ddyroddir o dan y Gorchymyn hwn fod yn ysgrifenedig.

(2) Caiff trwyddedau a chymeradwyaethau fod yn ddarostyngedig i amodau, a chaniateir eu hatal, eu diwygio neu'u dirymu, mewn ysgrifen ar unrhyw adeg.

Notifications etc

3.—(1) Any notification, licence, or approval issued under this Order must be in writing.

(2) Licences and approvals may be subject to conditions and may be suspended, amended or revoked in writing at any time.

RHAN 2

Cofnodion

Hysbysu am ddaliadau

4.—(1) Rhaid i feddiannwr daliad sy'n dechrau cadw moch ar y daliad hwnnw ac unrhyw berson sy'n cymryd meddiannaeth o ddaliad lle cedwir moch hysbysu Gweinidogion Cymru o'r wybodaeth ganlynol o fewn un mis—

- (a) eu henw a'u cyfeiriad; a
- (b) cyfeiriad y daliad.

(2) Pan ddaw hysbysiad o dan baragraff (1) i law Gweinidogion Cymru, rhaid iddynt ddyroddi marc enfaint.

(3) Rhaid i'r meddiannydd hysbysu Gweinidogion Cymru o unrhyw newid yn yr wybodaeth ym mharagraff (1) o fewn un mis.

(4) Rhaid i'r meddiannydd hysbysu Gweinidogion Cymru o fewn un mis os yw'r meddiannydd hwnnw'n peidio â chadw moch ar unrhyw ddaliad yr hysbyswyd yn ei gylch o dan baragraff (1).

Cofnodion

5.—(1) O fewn 36 awr ar ôl symud mochyn i ddaliad neu oddi arno, rhaid i'r ceidwad lenwi'r ffurflen yn yr Atodlen.

PART 2

Records

Notification of holdings

4.—(1) An occupier of a holding who begins to keep pigs on that holding, and any person who takes over the occupation of a holding where pigs are kept, must notify the Welsh Ministers within one month of—

- (a) their name and address; and
- (b) the address of the holding.

(2) On receipt of a notification under paragraph (1) the Welsh Ministers must issue a herdmark.

(3) The occupier must notify the Welsh Ministers of any change to the information in paragraph (1) within one month.

(4) The occupier must notify the Welsh Ministers within one month if that occupier ceases to keep pigs at any holding notified under paragraph (1).

Records

5.—(1) The keeper must complete the form in the Schedule within 36 hours of the movement of a pig on or off a holding.

(2) Unwaith bob blwyddyn, rhaid i'r ceidwad gofnodi uchafswm nifer y moch sydd fel arfer ar y daliad a'r nifer gwirioneddol o foch ar y daliad ar y dyddiad hwnnw.

(3) Rhaid i'r ceidwad ddal gafael ar y cofnodion hyn am 3 blynedd o leiaf.

(2) Once a year a keeper must record the maximum number of pigs normally on the holding and the actual number of pigs on the holding at that date.

(3) The keeper must keep these records for at least 3 years.

RHAN 3

Adnabod

Tagiau clust a thatw's

6.—(1) Rhaid i dag clust—

- (a) bod yn hawdd i'w ddarllen drwy gydol oes y mochyn;
- (b) bod wedi ei wneud naill ai o fetel neu o blastig neu o gyfuniad o fetel a phlastig;
- (c) gwrthsefyll ymyrryd ag ef;
- (ch) bod yn amhosibl i'w aildefnyddio;
- (d) gwrthsefyll gwres yn ddigonol fel na fydd prosesu'r carcass yn sgil cigydda yn difrodi'r tag clust na'r wybodaeth sydd wedi ei hargraffu neu'i stampio arno; ac
- (dd) bod wedi ei ddylunio i barhau ynghlwm wrth y mochyn heb beri niwed iddo.

(2) Rhaid gosod tatw naill ai gan ddefnyddio gefel tatwio, ac yn yr achos hwnnw rhaid ei osod ar glust, neu gan ddefnyddio offer slapfarcio, ac yn yr achos hwnnw rhaid ei osod ar y ddwy ysgwydd, ac yn y ddau achos rhaid iddo fod yn hawdd i'w ddarllen.

(3) Fel dewis arall, yn hytrach na gosod tatw gan ddefnyddio'r dulliau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2), caiff ceidwad osod tatw ar y ddwy ysgwydd gan ddefnyddio cyfarpar sy'n defnyddio aer cywasgedig i yrru'r pinnau tatwio i mewn i groen y mochyn, ar yr amod bod y tatw yn hawdd i'w ddarllen.

(4) Caiff ceidwad farcio mochyn ag unrhyw wybodaeth bellach, neu ychwanegu gwybodaeth bellach ar y tag clust neu at y tatw, ar yr amod y gellir gwahaniaethu'n eglur rhwng yr wybodaeth bellach a'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan y Gorchymyn hwn.

Adnabod moch a symudir oddi ar ddaliad

7.—(1) Ni chaiff neb symud mochyn oddi ar ddaliad oni fydd gan y mochyn—

- (a) tag clust sy'n dwyn y llythrennau "UK" a ddilynir gan farc cenfaint y daliad y symudir y mochyn ohono; neu
- (b) tatw, a osodwyd yn unol ag erthygl 6, sy'n dangos y marc cenfaint hwnnw (ynghyd â'r llythrennau "UK" neu hebddynt).

PART 3

Identification

Ear tags and tattoos

6.—(1) An ear tag must be—

- (a) easy to read during the pig's lifetime;
- (b) made of either metal or plastic or a combination of metal and plastic;
- (c) tamper-resistant;
- (d) incapable of re-use;
- (e) sufficiently heat-resistant that neither the ear tag nor the information printed or stamped on it can be damaged by the processing of the carcass following slaughter; and
- (f) designed to remain attached to the pig without harming it.

(2) A tattoo must be applied either by tattoo forceps, in which case it must be on an ear, or by slap-marking equipment, in which case it must be on each shoulder and must, in either case, be easy to read.

(3) As an alternative to applying a tattoo by the methods referred to in paragraph (2) a keeper may apply a tattoo to each shoulder by means of equipment which uses compressed air to drive the tattooing pins into the skin of the pig provided the tattoo is easy to read.

(4) A keeper may mark a pig with any further information, or add further information to the ear tag or tattoo provided that the further information is clearly distinguished from the information required under this Order.

Identification of pigs moved off a holding

7.—(1) No person may move a pig off a holding unless it has—

- (a) an ear tag with the letters "UK" followed by the herdmark of the holding from which the pig is moved off; or
- (b) a tattoo showing that herdmark (with or without the letters "UK"); applied in accordance with article 6.

(2) Yn ddarostyngedig i Orchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003(1), yn achos marchnad—

- (a) caniateir symud mochyn oddi yno os yw wedi ei farcio â marc cenfaint y daliad y cyrhaeddodd y mochyn ohono;
- (b) os nad yw'r mochyn wedi ei farcio'n gywir yn unol â'r Rheoliadau hyn pan yw'n cyrraedd y farchnad, caiff ei geidwad gywiro'r marciau adnabod er mwyn marcio'r mochyn â marc cenfaint y daliad y cyrhaeddodd y mochyn ohono, ond os na fydd y ceidwad yn gwneud hynny, ni chaniateir ond dychwelyd y mochyn i'r daliad y daeth ohono.

Eithriad ar gyfer mochyn nad yw eto'n flwydd oed

8.—(1) Nid yw erthygl 7 yn gymwys mewn perthynas â mochyn nad yw eto'n flwydd oed ar yr amod ei fod wedi ei farcio â marc dros dro sydd—

- (a) naill ai ar ei ben ei hun neu drwy gyfeirio at ddogfen sy'n mynd gyda'r mochyn pan symudir ef, yn galluogi adnabod y daliad y symudwyd y mochyn ohono ddiwethaf;
- (b) yn parhau hyd nes bo'r mochyn yn cyrraedd ei gyrchfan.

(2) Nid yw'r eithriad hwn yn gymwys mewn perthynas â mochyn a symudir—

- (a) i farchnad;
- (b) i ladd-dy;
- (c) at ddibenion masnachu neu allforio o fewn y Gymuned; neu
- (ch) i sioe.

Gofynion adnabod ychwanegol ar gyfer symud moch i sioeau, canolfannau semen moch etc.

9.—(1) Ni chaiff neb symud mochyn oddi ar ddaliad—

- (a) i sioe neu arddangosfa;
- (b) at ddibenion bridio gyda'r bwriad o ddychwelyd y mochyn i'r daliad y'i symudwyd ohono; neu
- (c) at y diben o gasglu semen mewn canolfan semen moch,

oni fydd y mochyn wedi ei farcio'n unol ag erthygl 7 neu gyda marc cenfaint sy'n cynnwys rhif adnabod unigol unigryw.

Gofynion ychwanegol ar gyfer allforio

10. Ni chaiff neb symud mochyn oddi ar ddaliad at ddibenion masnachu neu allforio o fewn y Gymuned onid oes ganddo dag clust neu datw sydd yn y ddau achos yn dwyn y llythrennau "UK" a ddilynir gan farc cenfaint a rhif adnabod unigol unigryw.

(2) Subject to the Disease Control (Wales) Order 2003(1) in the case of a market—

- (a) a pig may be moved off if it is marked with the herdmark of the holding from which it arrived;
- (b) if the pig is not correctly identified in accordance with these Regulations when it arrives at a market its keeper may correct the identification so that it is identified with the herdmark of the holding from which it arrived, but if the keeper does not do so the pig may only be returned to the holding it came from.

Exception for a pig less than one year old

8.—(1) Article 7 does not apply in relation to a pig less than one year old provided that it is identified with a temporary mark that—

- (a) either by itself or by reference to a document accompanying the pig during the movement enables the holding from which the pig was last moved to be identified; and
- (b) lasts until the pig reaches its destination.

(2) This exception does not apply in relation to a pig being moved—

- (a) to a market;
- (b) to a slaughterhouse;
- (c) for the purposes of intra-Community trade or export; or
- (d) to a show.

Additional identification requirements for movements of pigs to shows, porcine semen centres etc.

9.—(1) No person may move a pig off a holding—

- (a) to a show or exhibition;
- (b) for breeding purposes with the intention of returning the pig to the holding from which it was moved; or
- (c) for the purpose of collection of semen at a porcine semen centre,

unless it is marked in accordance with article 7 or with a herdmark that includes a unique individual identification number.

Additional requirements for export

10. No person may move a pig off a holding for the purposes of intra-Community trade or export unless it has an ear tag or tattoo in either case bearing the letters "UK" followed by a herdmark and a unique individual identification number.

(1) O.S. 2003/1966 (Cy.211).

(1) S.I. 2003/1966 (W.211).

Adnabod moch a symudir i ddaliad o fan y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd

11.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i unrhyw berson sy'n mewnforio mochyn o fan y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd osod ar y mochyn dag clust neu datw sy'n cynnwys yr wybodaeth ganlynol, yn y drefn a ganlyn—

- (a) y llythrennau "UK";
- (b) y marc cenfaint ar gyfer y genfaint y cyflwynir y mochyn a fewnforir iddi;
- (c) unrhyw wybodaeth arall, os bydd y ceidwad yn dymuno gosod y gyfryw wybodaeth; ac
- (ch) y llythyren "F".

(2) Rhaid gosod y tag clust neu'r tatw ar y mochyn o fewn 30 diwrnod ar ôl i'r mochyn gyrraedd daliad y gyrchfan, a beth bynnag cyn symud y mochyn o'r daliad hwnnw.

(3) Nid oes raid i berson sy'n mewnforio mochyn o fan y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd osod marc adnabod newydd yn unol â pharagraff (1) os symudir mochyn yn uniongyrchol i ladd-dy ac y'i cigyddir o fewn 30 diwrnod ar ôl iddo gyrraedd o fan y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

RHAN 4

Symudiadau

Symud moch, ac eithrio symudiadau i farchnadoedd neu ganolfannau casglu

12.—(1) Yn ddarostyngedig i erthyglau 13, 14, 15 ac 16(2) rhaid i geidwaid, ac eithrio marchnadoedd, hysbysu BPEX ynghylch pob symudiad moch o'u daliadau, cyn bo'r symudiadau hynny'n digwydd.

(2) Caiff ceidwaid hysbysu BPEX yn electronig drwy gofnodi'r wybodaeth ganlynol yn system gofnodi symudiadau BPEX—

- (a) cyfeiriad, gan gynnwys cod post a rhif CPH, y daliad y symudir y mochyn ohono a'r daliad y'i symudir iddo;
- (b) dyddiad y symudiad;
- (c) nifer y moch a symudir;
- (ch) marc adnabod pob mochyn a symudir, ac yn achos symudiad a bennir yn erthygl 9 neu 10 rhaid i'r marc adnabod hwnnw gynnwys y rhif adnabod unigol unigryw sy'n ofynnol gan yr erthyglau hynny.

(3) Os nad yw ceidwad yn hysbysu BPEX yn electronig, rhaid iddo ddarparu'r wybodaeth a restrir ym mharagraff (2) i MLCSL dros y teleffon neu mewn ysgrifen, ac ni chaiff symud y moch hynny cyn cael dogfen oddi wrth MLCSL sy'n cofnodi'r wybodaeth honno.

Identification of pigs moved onto a holding from outside the European Union

11.—(1) Subject to paragraph (3) any person importing a pig from outside the European Union must apply an ear tag or tattoo to the pig containing the following information, in the following order—

- (a) the letters "UK";
- (b) the herdmark of the herd into which the imported pig is introduced;
- (c) any other information, if the keeper wishes to apply such information; and
- (d) the letter "F".

(2) The ear tag or tattoo must be applied to the pig within 30 days of its arrival at the holding of destination and, in any event, before it is moved from that holding.

(3) A person importing a pig from outside the European Union need not apply a new identification mark in accordance with paragraph (1) where a pig is moved directly to a slaughterhouse and is slaughtered within 30 days of its arrival from outside the European Union.

PART 4

Movements

Movement of pigs other than movements to markets or collection centres

12.—(1) Subject to articles 13, 14, 15 and 16(2) keepers, other than markets, must notify BPEX of all movements of pigs from their holdings before those movements take place.

(2) Keepers may notify BPEX electronically by entering the following information onto the BPEX movement recording system—

- (a) the address, including the postcode, and CPH number of the holdings from and to which the pigs are being moved;
- (b) the date of the movement;
- (c) the number of pigs being moved;
- (d) the identification mark of each pig moved, and in the case of a movement specified in article 9 or 10 that must include the unique individual identification number required by those articles.

(3) If a keeper does not notify BPEX electronically they must provide the information listed in paragraph (2) by telephone or in writing to MLCSL and may not move those pigs until they have received a document from MLCSL recording that information.

(4) Pan fo MLCSL yn cael hysbysiad o wybodaeth symudiad o dan baragraff (3), rhaid i MLCSL, o fewn un diwrnod gwaith ac eithrio penwythnosau ar ôl cael yr hysbysiad, anfon at y ceidwad nifer digonol o gopiâu o ddogfen sy'n cofnodi'r wybodaeth honno, er mwyn galluogi'r ceidwad ac unrhyw gludydd a'r ceidwad yn naliad y gyrchfan i gyflawni eu rhwymedigaethau cofnodi.

(5) Pan symudir moch o farchnad, rhaid i'r farchnad hysbysu BPEX o'r wybodaeth ym mharagraff (2) mewn perthynas â'r moch hynny, yn electronig ar y diwrnod y'u symudir.

(6) Yn yr erthygl hon, ystyr "system gofnodi symudiadau BPEX" ("BPEX movement recording system") yw'r system gofnodi symudiadau electronig a symhelir gan BPEX at ddiben hysbysiadau o dan y Gorchymyn hwn, ac ystyr "diwrnod gwaith" ("working day") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn neu'n ddydd Sul, dydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith nac yn wyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(1).

Darpariaethau trosiannol

13.—(1) Tan 1 Ionawr 2012, os na all y farchnad hysbysu BPEX yn electronig yn unol ag erthygl 12(5), rhaid iddi ddarparu'r wybodaeth a restrir yn erthygl 12(2) i MLCSL dros y teleffon neu mewn ysgrifen ar ddiwrnod y gwerthiant

(2) Tan 1 Ebrill 2012 caiff ceidwad, ac eithrio marchnad, sy'n anfon moch i ddaliad arall, yn hytrach na hysbysu ynghylch y symudiad o dan erthygl 12, lenwi a llofnodi dogfen sy'n pennu—

- (a) cyfeiriad, gan gynnwys cod post a rhif CPH, y daliad y symudir y mochyn ohono a'r daliad y'i symudir iddo;
- (b) dyddiad y symudiad;
- (c) nifer y moch a gynhwysir yn y ddogfen;
- (ch) marc adnabod pob mochyn a symudir, ac yn achos symudiad a bennir yn erthygl 9 neu 10 rhaid i'r marc adnabod hwnnw gynnwys y rhif adnabod unigol unigryw sy'n ofynnol gan yr erthyglau hynny.

(3) Rhaid i'r ceidwad roi copi o'r ddogfen hon i'r person sy'n cludo'r moch.

(4) Rhaid i'r cludydd roi copi o'r ddogfen hon i'r ceidwad sy'n derbyn y moch.

(5) Rhaid i'r ceidwad y rhoddir copi iddo o'r ddogfen hon wrth iddo dderbyn y moch anfon y ddogfen at MLCSL o fewn 3 diwrnod.

(4) When MLCSL receives notification of movement information under paragraph (3) it must, within one working day of receipt excluding weekends, send the keeper sufficient copies of a document recording that information to enable the keeper, and any transporter and the keeper at the holding of destination to meet their recording obligations.

(5) When pigs are moved from a market the market must notify BPEX of the information at paragraph (2) in relation to those pigs electronically on the day of the movement.

(6) In this article "BPEX movement recording system" ("*system gofnodi symudiadau BPEX*") means the electronic movement recording system maintained for the purpose of notifications under this Order by BPEX and "working day" ("*diwrnod gwaith*") means a day which is not a Saturday or a Sunday, Christmas Day, Good Friday or a bank holiday in England and Wales under the Banking and Financial Dealings Act 1971(1).

Transitional provisions

13.—(1) Until 1 January 2012 if the market cannot notify BPEX electronically in accordance with article 12(5), it must provide the information listed in article 12(2) by telephone or in writing to MLCSL on the day of the sale.

(2) Until 1 April 2012 a keeper, other than a market, sending pigs to another holding may, instead of notifying the movement under article 12, complete and sign a document that specifies—

- (a) the address, including postcode and CPH number of the holding from and to which the pigs are being moved;
- (b) the date of the movement;
- (c) the number of pigs that the document covers;
- (d) the identification mark of each pig moved, and in the case of a movement specified in article 9 or 10 that must include the unique individual identification number required by those articles.

(3) The keeper must give a copy of this document to the person transporting the pigs.

(4) The transporter must give a copy of this document to the keeper receiving the pigs.

(5) The keeper who is given a copy of this document when receiving the pigs must send it within 3 days to MLCSL.

(1) 1971 p.80, y gwnaed diwygiadau iddi, nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(1) 1971 c.80 to which there are amendments not relevant to this Order.

Symud moch i farchnadoedd neu ganolfannau casglu

14.—(1) Nid oes raid i geidwad sy'n symud moch i farchnad roi hysbysiad ymlaen llaw ynglŷn â'r symudiad os yw'r farchnad yn hysbysu BPEX o'r wybodaeth a restrir yn erthygl 12(2), yn electronig ar y diwrnod y mae'r moch yn cyrraedd y farchnad.

(2) Nid oes raid i geidwad sy'n symud moch i ganolfan gasglu roi hysbysiad ymlaen llaw ynglŷn â'r symudiad os yw'r ganolfan gasglu wedi cytuno gyda'r ceidwad i hysbysu BPEX o'r wybodaeth a restrir yn erthygl 12(2), yn electronig ar y diwrnod y mae'r moch yn cyrraedd y ganolfan gasglu.

Symud moch i bractisiau milfeddygol ar gyfer triniaeth frys

15. Nid oes raid i geidwad sy'n symud mochyn i bractis milfeddygol ar gyfer triniaeth frys roi hysbysiad ynglŷn â'r symudiad.

Symud moch o sioeau

16.—(1) Pan fo ceidwad yn bwriadu symud mochyn o'i ddaliad i sioe, ac yntau'n gwybod i ba ddaliad y mae'n bwriadu symud y mochyn ar ôl y sioe, rhaid iddo roi hysbysiad yn unol ag erthygl 12, o'r symudiad i'r sioe yn ogystal â'r symudiad oddi yno, cyn symud y mochyn i'r sioe.

(2) Pan fo ceidwad yn symud mochyn i sioe, ac yntau ddim yn gwybod i ba ddaliad y bwriada symud y mochyn ar ôl y sioe, rhaid iddo ddarparu i BPEX mewn perthynas â'r symudiad o'r sioe, yr wybodaeth yn erthygl 12(2), neu adrodd hynny wrth MLCSL, o fewn 3 diwrnod ar ôl y symudiad o'r sioe.

Cludo moch

17.—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n cludo moch gario dogfen sy'n pennu—

- (a) cyfeiriad, gan gynnwys cod post a rhif CPH, y daliad y symudir y mochyn ohono a'r daliad y'i symudir iddo;
- (b) dyddiad y symudiad;
- (c) nifer y moch a gynhwysir yn y ddogfen;
- (ch) marc adnabod pob mochyn a symudir, ac yn achos symudiad a bennir yn erthygl 9 neu 10 rhaid i'r marc adnabod hwnnw gynnwys y rhif adnabod unigol unigryw sy'n ofynnol gan yr erthyglau hynny; a
- (d) yn achos symudiad o farchnad, rhifau lot y moch a symudir,

ac os nad adroddir am y symudiad yn electronig, llofnodir y ddogfen honno gan y ceidwad.

(2) Rhaid i'r cludydd roi dau gopi o'r ddogfen i'r ceidwad yn naliad y gorchfan os na all y ceidwad

Movement of pigs to markets or collection centres

14.—(1) A keeper moving pigs to a market need not notify the movement in advance if the market notifies BPEX electronically of the information listed in article 12(2) on the day of the pigs arrival at the market.

(2) A keeper moving pigs to a collection centre need not notify the movement in advance if the collection centre has agreed with the keeper to notify BPEX electronically of the information listed at article 12(2) on the day of the pigs arrival at the collection centre.

Movement of pigs to veterinary practices for emergency treatment

15. A keeper moving a pig to a veterinary practice for emergency treatment need not notify the movement.

Movement of pigs from shows

16.—(1) When a keeper intends to move a pig from their holding to a show and knows which holding they intend to move the pig to after the show, they must notify both the movement to the show and the movement from the show in accordance with article 12 before moving the pig to the show.

(2) When a keeper moves a pig to a show without knowing which holding they intend to move the pig to after the show, they must provide, in relation to the movement from the show, the information in article 12(2) to BPEX or report to MLCSL within 3 days of the move from the show.

Transport of pigs

17.—(1) Any person transporting pigs must carry a document that specifies—

- (a) the address, including postcode and CPH number of the holdings from and to which the pigs are being moved;
- (b) the date of the movement;
- (c) the number of pigs that the document covers;
- (d) the identification mark of each of the pigs moved and in the case of a movement specified in article 9 or 10, this must include the unique individual identification number required by those articles; and
- (e) in the case of a movement from a market, the lot numbers of the pigs being moved,

and, if the movements are not being reported electronically, that document is signed by the keeper.

(2) The transporter must give two copies of the document to the keeper at the holding of destination if

newydd hwnnw hysbysu BPEX, yn electronig, bod y ceidwad newydd wedi cael yr anifeiliaid hynny.

Dyfodiad moch i ddaliad

18.—(1) Rhaid i'r ceidwad yn naliad y gyrchfan gadw'r ddogfen y cyfeirir ati yn erthygl 17(1) am 6 mis o leiaf, oni fydd y ceidwad yn rhoi hysbysiad o'r symudiad o dan baragraff (2)(a).

(2) Rhaid i'r ceidwad yn naliad y gyrchfan, o fewn 3 diwrnod ar ôl i'r moch gyrraedd, naill ai—

- (a) cofnodi ar system gofnodi symudiadau BPEX y nifer o foch sy'n cyrraedd yn ei ddaliad; neu
- (b) cyflwyno'r un wybodaeth i MLCSL dros y teleffon, drwy ffacs neu mewn ysgrifen.

Allforio moch

19. Yn achos mochyn a symudir o ddaliad i borthladd ac y bwriedir ei gludo allan o Brydain Fawr, rhaid i'r ceidwad yn y daliad hwnnw adrodd am y symudiad drwy BPEX neu anfon copi o'r ddogfen y cyfeirir ati yn erthygl 17 at MLCSL o fewn 3 diwrnod ar ôl i'r anifail adael y daliad.

Trwyddedau cerdded ar gyfer moch anwes

20. Caiff Gweinidogion Cymru roi trwydded gerdded i geidwad mochyn anwes i ganiatáu iddo fynd â'r mochyn am dro oddi ar y daliad heb gydymffurfio ag erthygl 5 neu 12, ond rhaid i'r person sy'n mynd â'r mochyn am dro gario copi o'r drwydded tra bydd allan am dro gyda'r mochyn.

Daliadau cymeradwy

21.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo daliad at ddibenion symud moch a fwriedir ar gyfer bridio neu besgi.

(2) Rhaid i'r gymeradwyaeth bennu pa ddaliadau y caniateir symud moch ohonynt a pha ddaliadau y caniateir eu symud iddynt.

(3) Nid yw symud moch rhwng daliadau sydd wedi eu cymeradwyo o dan yr erthygl hon yn sbarduno'r cyfnod segur yng Ngorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003.

that new keeper is not able to notify BPEX electronically that the new keeper has received those animals.

Arrival of pigs at a holding

18.—(1) The keeper at the holding of destination must keep the document referred to in article 17(1) for at least 6 months unless the keeper notifies the movement under paragraph (2)(a).

(2) The keeper at the holding of destination must, within 3 days of arrival of the pigs, either—

- (a) record on the BPEX movement recording system the number of pigs arriving at their holding; or
- (b) submit the same information to MLCSL by telephone, by fax or in writing.

Export of pigs

19. In the case of a pig moved from a holding to a port and intended for consignment outside Great Britain the keeper at that holding must report the movement via BPEX or send a copy of the document referred to in article 17 to MLCSL within 3 days of the animal leaving the holding.

Walking licences for pet pigs

20. The Welsh Ministers may grant a walking licence to a keeper of a pet pig allowing them to take the pig for a walk off the holding without complying with article 5 or 12, but the person walking the pig must carry a copy of the licence throughout the walk.

Approved holdings

21.—(1) The Welsh Ministers may approve a holding for the purposes of movements of pigs intended for breeding or growing.

(2) The approval must specify which holdings pigs may be moved from and which holdings they may be moved to.

(3) A movement of pigs between holdings approved under this article does not trigger the standstill period in the Disease Control (Wales) Order 2003.

RHAN 5

Amrywiol

Dileu neu ddifrodi marc adnabod

22. Ni chaiff neb, onid awdurdodir gan Weinidogion Cymru, ddileu neu ddifrodi marc adnabod.

Gosod marc adnabod newydd yn lle'r un blaenorol

23.—(1) Rhaid i geidwad osod marc adnabod newydd yn lle'r un blaenorol os yw—

- (a) wedi mynd yn annarllenadwy;
- (b) wedi ei dynnu ymaith am resymau lles; neu
- (c) wedi mynd ar goll.

(2) Rhaid i unrhyw berson sy'n gosod marc adnabod newydd yn lle'r un blaenorol naill ai—

- (a) gosod yr un math yn union o farc adnabod; neu
- (b) gosod marc adnabod newydd a chroesgyfeirio'r marc adnabod newydd â'r marc adnabod gwreiddiol yn y cofnod a gedwir o dan erthygl 5.

Dangos dogfennau a chofnodion

24. Caiff arolygydd ei gwneud yn ofynnol dangos unrhyw gofnod a wneir o dan y Gorchymyn hwn, os gofynnir am ei weld, a'i gwneud yn ofynnol gwneud copi neu allbrint ohono.

Gorfodi

25.—(1) Gorfodir y Gorchymyn hwn gan yr awdurdod lleol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo, mewn perthynas ag achosion o ddisgrifiad penodol neu mewn perthynas ag unrhyw achos penodol, mai hwy fydd yn gorfodi'r Gorchymyn hwn yn lle'r awdurdod lleol.

(3) Yn yr erthygl hon, ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor sir yng Nghymru.

Dirymiadau a diwygiadau

26.—(1) Dirymir Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2008(1).

(2) Yn erthygl 12(2) o Orchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003, yn lle "erthygl 10 o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002" rhodder "erthygl 20 o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011".

PART 5

Miscellaneous

Removing or defacing an identification mark

22. No person may, unless authorised by the Welsh Ministers, remove or deface an identification mark.

Replacement of an identification mark

23.—(1) A keeper must replace an identification mark if it has—

- (a) become illegible;
- (b) been removed for welfare reasons; or
- (c) been lost.

(2) Any person replacing an identification mark must either—

- (a) apply an identical identification mark; or
- (b) apply a new identification mark and cross-refer the new identification mark with the original identification mark in the record kept under article 5.

Production of documents and records

24. An inspector may require any record made under this Order to be produced on demand and a copy or printout of it to be made.

Enforcement

25.—(1) This Order is enforced by the local authority.

(2) The Welsh Ministers may direct, in relation to cases of a particular description or any particular case, that they will enforce this Order instead of the local authority.

(3) In this article "local authority" ("*awdurdod lleol*") means a county borough council or county council in Wales.

Revocations and amendments

26.—(1) The Pigs (Records, Identification and Movement) Order (Wales) 2008 is revoked(1).

(2) In article 12(2) of the Disease Control (Wales) Order 2003 replace "article 10 of the Pigs (Records, Identification and Movement) (Interim Measures) (Wales) (No 2) Order 2002" with "article 20 of the Pigs (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2011".

(1) O.S. 2008/1742 (Cy.172).

(1) S.I. 2008/1742 (W.172).

Alun Davies

Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, o dan awdurdod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, un o Weinidogion Cymru

Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes, under authority of the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, one of the Welsh Ministers

22 Tachwedd 2011

22 November 2011

COFNOD SYMUDIADAU DALIAD

Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011

Enw a chyfeiriad y person sy'n cadw'r cofnod

Dyddiad y symudiad	Y rhif adnabod ⁽¹⁾	Nifer y moch	Y daliad y'u symudwyd ohono	Y daliad y'u s ymudwyd iddo
--------------------	-------------------------------	--------------	-----------------------------	-----------------------------

⁽¹⁾ Yn achos symudiad a bennir yn erthygl 9 neu 10 rhaid i hwn gynnwys y rhif adnabod unigol unigryw sy'n ofynnol gan yr erthyglau hynny.

© Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

SCHEDULE

Article 5

HOLDING MOVEMENT RECORD

The Pigs (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2011

Name and address of the person keeping the record

Date of movement	The identification number ⁽¹⁾	Number of pigs	Holding from which moved	Holding to which moved
------------------	--	----------------	--------------------------	------------------------

⁽¹⁾ In the case of a movement specified in article 9 or 10, this must include the unique individual identification number required by those articles.

© Crown copyright 2011

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2011 Rhif 2830 (Cy.303)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Moch (Cofnodion,
Adnabod a Symud) (Cymru)
2011

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2011 No. 2830 (W.303)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

The Pigs (Records, Identification
and Movement) (Wales) Order
2011